# Cyngor Cymuned Llanferres – Trefniadau caffael

Blwyddyn archwilio: 2020-21 a 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3694A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod. Prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

# Cynnwys

Gan weithredu dan drefniadau dirprwyedig ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 22 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i dynnu sylw'r cyhoedd at ddiffygion sylweddol yn y modd y cafodd contractau eu caffael gan Gyngor Cymuned Llanferres.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Canfyddiadau allweddol 6

Argymhellion posibl a'r camau nesaf 7

Adroddiad manwl

Mae Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol y Cyngor yn gynhwysfawr ac yn nodi'n glir beth yw rheolau'r Cyngor ei hun ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau 9

Methodd y Cyngor â chydymffurfio â'i Reolau Sefydlog a'i Reoliadau Ariannol ar gyfer ailddatblygu Cae Chwarae a Pherllan Maeshafn 10

Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer prosiect Maeshafn yn golygu nad yw'n gallu dangos stiwardiaeth briodol ar arian cyhoeddus ac yn fy marn i, fe weithredodd yn anghyfreithlon wrth ddyfarnu contract ar wahân ar gyfer gwaith tir 16

Mae dull caffael y Cyngor ar y cyfan yn wael ac mae'r methiannau a ganfuwyd yn systemig 20

Atodiadau

Atodiad 1: Cymhariaeth rhwng manylebau gwaith tir ar gyfer Cae Chwarae Maeshafn 23

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) ystyried a ddylai, er budd y cyhoedd, gyflwyno adroddiad ar unrhyw fater a ddaw i'w sylw yn ystod ei archwiliad er mwyn iddo gael ei ystyried gan Gyngor Cymuned Llanferres neu gael ei ddwyn i sylw'r cyhoedd.

2 Yng ngoleuni diffygion sylweddol yn nhrefniadau'r Cyngor, yn fy marn i, nid oes gan y Cyngor drefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio'i adnoddau ac mae wedi gweithredu'n anghyfreithlon wrth osod contractau. Mewn ymateb i'r diffygion hyn, rwyf wedi penderfynu cyhoeddi'r adroddiad hwn er budd y cyhoedd.

3 Wrth wneud y penderfyniad hwn, rwyf wedi ystyried ymateb y Cyngor i ddogfen a oedd yn nodi fy nghanfyddiadau a'm casgliadau dros dro.

4 Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig bod gan y cyhoedd ymwybyddiaeth lawn a phriodol o'r digwyddiadau sy'n ymwneud â'r Cyngor. Ar ben hynny, er bod fy nghanfyddiadau archwilio'n benodol i'r Cyngor hwn, mae gwersi pwysig i'w dysgu nid dim ond gan y Cyngor, ond gan yr holl gynghorau cymuned yng Nghymru.

### Cyngor Cymuned Llanferres

5 Mae Cyngor Cymuned Llanferres (y Cyngor) yn gwasanaethu pentrefi Llanferres, Maeshafn, Tafarn-y-Gelyn, Cadole a Phant Du yn Sir Ddinbych. Mae'r Cyngor yn cynnwys naw cynghorydd. Mae'n darparu gwasanaethau lleol gan gynnwys rhedeg a chynnal a chadw nifer o gyfleusterau gan gynnwys caeau chwarae a hamdden.

6 Mae'r Cyngor yn ariannu'r gwasanaethau a'r cyfleusterau hyn yn bennaf trwy braesept a godir ar Gyngor Sir Ddinbych. Yn 2021-22, cododd y Cyngor braesept o £15,150 (2020-21 £15,165). Cafodd arian ychwanegol hefyd a oedd yn gyfanswm o £5,976 trwy ad-daliadau TAW a grantiau. Yn 2020-21 cafodd y Cyngor arian ychwanegol a oedd yn gyfanswm o £20,329 gan gynnwys grant o £18,476 a gafwyd i ailddatblygu cae chwarae a pherllan Maeshafn.

7 Yn 2021-22 gwariodd y Cyngor £13,212 fel a adroddwyd yn ei Ffurflen Flynyddol. Yn 2020-21, gwariodd y Cyngor £42,982 gan gynnwys £25,893 (gan gynnwys TAW) ar brosiect ailddatblygu Maeshafn.

8 Mae cronfeydd wrth gefn cronedig y Cyngor yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall o £11,231 ar 31 Mawrth 2018 i £14,360 ar 31 Mawrth 2022. Mae'r Cyngor wedi egluro bod cyfanswm ei gronfeydd wrth gefn, sef £14,360, yn cynnwys £2,500 a gronnwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol ar gyfer costau etholiadau a £2,350 ar gyfer lwfansau Cynghorwyr.

9 Mae'r Cyngor Sir yn casglu'r praesept trwy dreth gyngor ychwanegol a godir ar drigolion y Cyngor. Daw cyllid y Cyngor o bwrs y wlad ac fe gaiff ei aelodau eu hethol gan drigolion lleol. Felly mae'r Cyngor yn atebol i'r etholaeth leol ac mae

gofyn iddo sicrhau ei fod wedi sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio’r arian a roddwyd yn ei ofal.

10 Mae cynghorau cymuned fel Llanferres, oherwydd eu natur leol fach iawn, yn dibynnu fel arfer ar un swyddog allweddol, y Clerc, i reoli eu materion gweinyddol. Yn amlach na pheidio, penodir y Clerc yng nghymhwyster Swyddog Cyllid Cyfrifol hefyd. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy’n gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor o ddydd i ddydd. Yn arbennig, mae hyn yn cynnwys cael a chofnodi incwm, paratoi taliadau â siec i’w llofnodi gan aelodau, cynnal y cofnodion cyfrifyddu, paratoi’r datganiadau cyfrifyddu blynyddol a gweinyddu contractau. Cyflogwyd y Clerc gan y Cyngor ym mis Ebrill 2020.

11 Er bod rôl y Clerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol yn bodoli, yn ôl y gyfraith [Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (Rheoliadau 2014)], mae’r cyfrifoldeb am warchod arian y Cyngor, gan gynnwys sicrhau bod ganddo reolaeth ariannol effeithiol ac effeithlon, yn gorwedd gyda’r Cyngor (hynny yw, yr aelodau). Mae hyn yn cynnwys pethau fel sefydlu system rheolaeth fewnol briodol, gan gynnwys archwilio mewnol, cymeradwyo’r datganiadau cyfrifyddu blynyddol cyn eu cyflwyno i’r archwilydd allanol i gael eu harchwilio a sicrhau bod gan y Cyngor drefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio’i adnoddau.

## Fy ngwaith archwilio

12 Mae fy ngwaith archwilio ar gynghorau tref a chymuned yn canolbwyntio ar ffurflen flynyddol a gwblheir gan y cynghorau ac a gyflwynir i archwilwyr sy’n gweithio ar fy rhan. Mae’r ffurflen flynyddol yn cynnwys y datganiadau cyfrifyddu blynyddol y mae’n ofynnol yn gyfreithiol i’r cyngor eu paratoi a datganiad llywodraethu blynyddol sy’n nodi sut y mae’r cyngor wedi rheoli ei faterion ariannol.

13 Mae’r gwaith hwn wedi’i fwriadu i ddarparu digon o dystiolaeth ar fy nghyfer i’m galluogi i ddod i gasgliad ynghylch y canlynol:

- pa un a yw’r Datganiad Cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn wedi cael ei baratoi’n briodol ac yn rhoi darlun cywir o dderbyniadau a thaliadau’r Cyngor;
- pa un a yw’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gyson â’r trefniadau llywodraethu a sefydlwyd gan y Cyngor; a
- pha un a yw’r Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio’i adnoddau.

14 Gwneir gwaith archwilio ychwanegol pan fo materion yn dod i’m sylw yn ystod yr archwiliad.

15 Ym mis Awst 2021, cefais ohebiaeth yn codi pryderon ynghylch afreoleidd-dra ariannol yn y Cyngor a diffyg cydymffurfio â rheolau sefydlog y Cyngor ei hun fel y maent yn berthnasol i drefniadau caffael ar gyfer ailddatblygu Ardal Chwarae Maeshafn. Roedd yr wybodaeth hefyd yn codi pryderon ynghylch addasrwydd yr offer a brynwyd ar gyfer defnyddwyr anabl, yn benodol daliwr peli.

16 Felly, fe estynnais fy archwiliad i adolygu effeithiolrwydd trefniadau caffael y Cyngor. Nid wyf wedi ystyried addasrwydd eitemau penodol o offer a brynwyd na pha un a wnaeth yr offer a brynwyd gyflawni amcan y Cyngor i wneud 'y parc yn fwy diogel i bawb ac yn fwy hygyrch i'r rhai llai abl.'

# Canfyddiadau allweddol

17 Canfu fy archwiliad arferion caffael gwael a bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'i Reolau Sefydlog a'i Reoliadau Ariannol ei hun. O ganlyniad i'r methiannau hyn, rwy'n ystyried bod y Cyngor wedi gweithredu'n anghyfreithlon ac wedi methu â sicrhau bod ganddo drefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian.

18 Caiff canfyddiadau fy archwiliad eu crynhoi isod a'u nodi mewn mwy o fanylder yng ngweddill y ddogfen hon.

19 Yn ystod 2020-21, fe ysgwyddodd y Cyngor wariant a oedd yn gyfanswm o £25,035 ar ailddatblygu Ardal Chwarae Maeshafn. Roedd y gwaith ailddatblygu'n cynnwys gwaith tir (£5,145) a chaffael offer maes chwarae newydd (£19,890).

20 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol sy'n llywodraethu sut y mae'n caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Mae'r rheolau sefydlog a'r rheoliadau ariannol hyn yn seiliedig ar fodel cenedlaethol ac maent i'w gweld yn gynhwysfawr. O ystyried gwerth prosiect Maeshafn, dylai'r Cyngor fod wedi cymhwyso'i Reolau Sefydlog a'i Reoliadau Ariannol.

21 Fodd bynnag, methodd y Cyngor â chydymffurfio â'i Reolau Sefydlog a'i Reoliadau Ariannol ar gyfer ailddatblygu Cae Chwarae a Pherllan Maeshafn.

22 Ceir diffygion sylweddol yn y ffordd y bu i'r Cyngor gaffael y gwaith i faes chwarae Maeshafn mewn perthynas â'r prosiect hwn. Canfu fy archwiliad fel a ganlyn:

- methodd y Cyngor â hysbysebu'r contract i wahodd tendrau ac yn lle hynny fe gysylltodd â chwmnïau unigol i ofyn iddynt ddarparu dyfynbrisiau;
- yn dilyn cael dyfynbrisiau ar gyfer y cynllun gwreiddiol fe gysylltodd y Cyngor â phumed contractwr posibl i ofyn iddo ddarparu dyfynbris ar gyfer rhan o'r cynllun yn unig; ac
- fe wnaeth y Cyngor gamarwain y tri chwmni a oedd wedi darparu dyfynbrisiau'n wreiddiol pan ofynnodd am ddyfynbrisiau diwygiedig nad oeddent yn cynnwys gwaith tir.

23 Er bod y Cyngor wedi penderfynu i ba gwmnïau y byddai'n dyfarnu contractau ar sail cymharu dyfynbrisiau a ddarparwyd yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr 2021, ni ellir adnabod yn glir mai'r cyflenwr a dewiswyd ar gyfer y gwaith tir oedd yn darparu'r gwerth gorau a'r datrysiad mwyaf cost-effeithiol ar gyfer y gwaith.

24 Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer prosiect Maeshafn yn golygu nad yw'n gallu dangos stiwardiaeth briodol ar arian cyhoeddus ac yn fy marn i, fe weithredodd yn anghyfreithlon wrth ddyfarnu contract ar wahân ar gyfer gwaith tir.

25 O ganlyniad i'r diffygion difrifol a ganfuwyd mewn perthynas â phrosiect Maeshafn, fe estynnais fy adolygiad i ystyried ymarferion caffael eraill a gynhaliwyd gan y

Cyngor. Canfu fy archwiliad fod dull caffael cyffredinol y Cyngor yn wael a bod y methiannau a ganfuwyd yn systemig.

26 Yn wir, ceir diffygion o ran y modd y dyfarnwyd pob un o'r pedwar contract a adnabuwyd yn 2020-21 lle'r oedd y gost yn uwch na'r trothwy a nodir yn rheoliadau ariannol y Cyngor ei hun. Mae'n achos pryder arbennig nad yw'r Cyngor yn cofnodi unrhyw resymeg yn ei gofnodion dros dderbyn dyfynbrisiau heblaw'r isaf a gafwyd.

27 O ganlyniad i'r methiannau yr wyf wedi'u canfod, rwy'n dod i'r casgliadau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi gweithredu'n anghyfreithlon wrth benodi contractwyr ac wedi ysgwyddo gwariant sydd, yn fy marn i, yn erbyn y gyfraith; ac
- nid oes gan y Cyngor, yn fy marn i, drefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio'i adnoddau.

28 Caiff y canfyddiadau hyn eu hystyried mewn mwy o fanylder yng ngweddill y ddogfen hon.

29 Yn ei ymateb i'm canfyddiadau dros dro, dywedodd y Cyngor ei fod yn credu ei fod 'wedi arfer diwydrwydd dyladwy, ei fod yn 'dryloyw' ac na wnaeth 'gamarwain' unrhyw un'.

# Argymhellion a'r camau nesaf

## Argymhellion

30 Rwy'n cyflwyno 3 argymhelliad i'r Cyngor fel a nodir yn **Arddangosyn 1** isod:

**Arddangosyn 1: argymhellion**

Rwy'n gwneud 3 argymhelliad i gynorthwyo'r Cyngor i wella'i arferion caffael

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Cyngor adolygu ei drefniadau ar gyfer caffael gwaith, nwyddau a gwasanaethau i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i reolau sefydlog a'i reoliadau ariannol ei hun. |
| A2 | Dylai'r Cyngor sicrhau y ceir cymeradwyaeth y Cyngor i unrhyw wyriadau oddi wrth y Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol. Dylai Cofnodion y cyfarfod nodi'r rhesymeg dros wyriadau o'r fath a chymeradwyaeth eglur i'r argymhelliad i wneud hynny. |

**Argymhellion**

A3 Dylai'r Cyngor sicrhau bod y rhesymeg dros ddewis cyflenwyr yn dilyn proses gaffael yn cael ei chofnodi'n glir yn y cofnodion. Dylai hyn gynnwys gwerth y tendr/dyfynbris a dderbyniwyd yn y cyfarfod a'r rheswm dros ei ddewis.

## Y camau nesaf

## Y camau nesaf

31 Yn unol ag adrannau 25 i 27 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 rhaid i'r Cyngor fynd ati yn awr i ystyried yr adroddiad hwn yn un o gyfarfodydd llawn y Cyngor o fewn un mis i ddyddiad yr adroddiad hwn.

32 O leiaf saith niwrnod cyn y cyfarfod, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn y gymuned a hwnnw'n nodi:

- amser a lleoliad y cyfarfod;
- bod y cyfarfod yn cael ei gynnal i ystyried adroddiad er budd y cyhoedd; a
- disgrifiad o gynnwys yr adroddiad.

33 Yn y cyfarfod, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:

- a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau gweithredu;
- a yw'r argymhellion yn yr adroddiad yn mynd i gael eu derbyn; a hefyd
- pa gamau (os o gwbl) ddylid eu cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

34 Wedyn bydd angen i'r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw gyda mi cyn cyhoeddi ei ymateb mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn y gymuned.

Ann-Marie Harkin

Cyfarwyddwr Gweithredol – Gwasanaethau Archwilio

Tros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Adroddiad manwl

## Mae Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol y Cyngor yn gynhwysfawr ac yn nodi'n glir beth yw rheolau'r Cyngor ei hun ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau

### Mabwysiadodd y Cyngor Reolau Sefydlog yn 2019 a Rheoliadau Ariannol ym mis Hydref 2020

35 Rheolau sefydlog yw rheolau ysgrifenedig cyngor lleol ac maent yn rheoleiddio trafodion cyfarfodydd y Cyngor a sut y mae'n cynnal ei fusnes. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu a diwygio fel y bo'n briodol, set o Reolau Sefydlog Enghreifftiol a gyhoeddwyd gan Un Llais Cymru a Chymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol (NALC). Mae'r Cyngor yn cyhoeddi ei Reolau Sefydlog ar ei wefan yn https://www.llanferrescommunitycouncil.org/governance/. Mae'r Rheolau Sefydlog cyhoeddedig yn nodi bod y Cyngor wedi'u diweddaru yn 2019 ac wedi'u hailddatgan ym mis Mai 2022.

36 Caiff y Rheolau Sefydlog eu hategu gan Reoliadau Ariannol. Mae'r Rheoliadau Ariannol yn llywodraethu'r modd y cynhelir rheolaeth ariannol gan y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Rheoliadau Ariannol enghreifftiol a gyhoeddwyd gan Un Llais Cymru. Rhaid ymlynu wrth Reoliadau Ariannol ar y cyd â rheolau sefydlog y Cyngor. Nid yw'r Rheoliadau Ariannol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

37 Y Cyngor sy'n gyfrifol mewn cyfraith am sicrhau bod ei reolaeth ariannol yn ddigonol ac effeithiol a bod gan y Cyngor system rheolaeth fewnol gadarn sy'n hwyluso trefn effeithiol i gyflawni swyddogaethau'r Cyngor. Mae'r Rheoliadau Ariannol yn dangos sut y mae'r Cyngor yn cyflawni'r cyfrifoldebau ac yn ateb y gofynion hyn.

38 Mae'r dogfennau enghreifftiol a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn gynhwysfawr ac yn darparu fframwaith eglur y mae'n rhaid i'r Cyngor weithredu oddi mewn iddo.

### Mae Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol y Cyngor yn nodi sut y dylai'r Cyngor gaffael nwyddau a gwasanaethau

39 Mae Rheol Sefydlog 18 yn nodi'r rheolaethau ar y cyfan sy'n gysylltiedig â chaffael. Mae'n nodi'r gofyniad bod y Cyngor yn ystyried ac yn cymeradwyo rheoliadau ariannol sy'n ymgorffori trefniadau manwl ar gyfer caffael contractau.

40 Mae Rheol Sefydlog 18(a) yn ei gwneud yn bosibl i'r rheoliadau ariannol eithrio contractau gwerth is h.y. bod y rhai â gwerth is na £25,000 wedi'u heithrio rhag y gofyniad i gynnal proses dendro.

41 Ar gyfer y contractau hynny nad ydynt wedi'u heithrio dan y Rheoliadau Ariannol, mae Rheol Sefydlog 18(c) yn nodi cyfres o gamau sy'n rhan o'r broses dendro ar gyfer contractau i gyflenwi nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau a gwneud gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys:

- paratoi manyleb ar gyfer y nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau neu waith
- llunio a hysbysebu gwahoddiad i dendro
- trefniadau i gael, agor ac ystyried tendrau.

42 Mae Rheoliad 11 yn nodi gweithdrefnau ar gyfer caffael ac yn cynnwys y gofynion canlynol:

- rhaid i'r holl gontractau gydymffurfio â'r Rheoliadau Ariannol ac eithrio dan amgylchiadau cyfyngedig a nodir yn y rheoliadau.
- os bwriedir hepgor y rheoliadau ariannol i alluogi contract i gael ei negodi heb gystadleuaeth, rhaid i'r rheswm gael ei nodi mewn argymhelliad i'r Cyngor.
- nid yw'r Cyngor dan orfodaeth i dderbyn yr isaf nac unrhyw un o blith tendrau, dyfynbrisiau neu amcangyfrifon.
- ni ddylai Aelodau nac uwch aelodau o staff fod yn rhan o ddyfarnu archebion a/neu gontractau i sefydliadau neu unigolion lle ceir buddiant personol, boed hwnnw'n un a ddatganwyd neu beidio.

43 Gwneir trefniadau amgen ar gyfer contractau ac iddynt werthoedd gwahanol, sef:

- rhaid i gontractau â gwerth o fwy na £10,000 fynd trwy broses dendro ffurfiol.
- ar gyfer contractau yr amcangyfrifir bod eu gwerth rhwng £800 a £9,999 mae gofyn cael tri dyfynbris.
- ar gyfer contractau y mae eu gwerth yn is nag £800, dylai swyddog sy'n dyroddi archeb swyddogol 'sicrhau hyd y bo'n rhesymol ac yn ymarferol y ceir y telerau gorau sydd ar gael mewn perthynas â phob trafodiad, fel arfer trwy gael tri neu fwy o ddyfynbrisiau neu amcangyfrifon gan gyflenwyr priodol, yn amodol ar unrhyw ddarpariaethau de minimis yn Rheoliad 11.1 isod'. Fodd bynnag, nid yw rheoliad 11.1 yn nodi trothwy de minimis.

44 Rwy'n nodi bod diffyg cysondeb rhwng Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol y Cyngor. Mae'r Rheolau Sefydlog (18) yn cynnwys darpariaeth i'r Rheoliadau Ariannol eithrio contractau â gwerth is na £25,000 rhag ofynion caffael arferol y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol cynnal proses dendro ffurfiol i gaffael pob contract â gwerth uwch na £10,000.

# Methodd y Cyngor â chydymffurfio â'i Reolau Sefydlog a'i Reoliadau Ariannol ar gyfer ailddatblygu Cae Chwarae a Pherllan Maeshafn

## Cynhaliwyd y broses gaffael ar gyfer prosiect ailddatblygu Maeshafn rhwng mis Mawrth 2020 a mis Ionawr 2021

45 Ym mis Medi 2020, fe wnaeth y Clerc ar y cyd â'r Cadeirydd ar y pryd, y Cyngh. A Morgans a'r Cyngh. A Curtis, lunio cynllun datblygu ar gyfer Cae Chwarae a Pherllan Maeshafn. Crëwyd y Cynllun hwn yn dilyn cael adroddiad arolygu

blynyddol ar yr ardal chwarae bresennol ym mis Mawrth 2020. Darparwyd yr adroddiad arolygu gan arolygydd trydydd parti, The Play Inspection Company Ltd a oedd wedi'i leoli yn Dorset.

46 Roedd yr Adroddiad Arolygu'n dynodi bod yr ardal yn un Risg Isel ond fe gofnododd mai dim ond rhai nodweddion hygyrch oedd yno. Roedd yr ardal yn cyflwyno 'anawsterau i'r mwyafrif o bobl ag anableddau ond dan amgylchiadau ffafriol ac yn sicr mewn partneriaeth gellid cael mynediad at y parc'.

47 Fe gadarnhaodd y Clerc wrth fy nhîm archwilio mai'r Adroddiad hwn oedd y sbardun ar gyfer datblygu'r parc ynghyd â chyfyngiadau symud COVID a oedd yn golygu y dylai rhagor o deuluoedd allu cael mynediad at fan awyr agored braf yn eu pentref. Roedd y parc wedi mynd â'i ben iddo ac nid oedd yn cael ei ddefnyddio rhyw lawer.

48 Mae **Arddangosyn 2** yn amlinellu'r llinell amser ar gyfer gweithgareddau allweddol yn y prosiect hwn ac fe'i hategir gan ragor o fanylion yn **Atodiad 1**.

**Arddangosyn 2: llinell amser ailddatblygu Maeshafn**

| Dyddiad | Gweithgareddau Allweddol |
|---|---|
| Medi 2020 | Lluniwyd Cynllun Datblygu Cae Chwarae a Pherllan Maeshafn gan y Clerc, y Cyngh. Morgans a'r Cyngh. Curtis gyda chost amcangyfrifedig o £26,700 ac ail gam posibl â chost o £36,000 |
| 16 Hyd 2020 | Cysylltwyd â 4 cwmni i ymuno â chynrychiolwyr y Cyngor yn y Maes Chwarae i roi eu meddyliau cychwynnol am offer y maes chwarae a darparu dyfynbris am wneud y gwaith |
| 21 -23 Hyd 2020 | Cafwyd dyfynbrisiau gan Play and Leisure Ltd (£21,255) a Play Quest Adventure Play Ltd (£19,691) |
| 27 Hyd 2020 | Cysylltwyd â Celtic Stone mewn perthynas â dyfynbris am greu llwybr, llawr caled a phlinthau concrit ar gyfer y meinciau/byrddau picnic. |
| 8 Tach 2020 | Cafwyd dyfynbris gan Celtic Stone a oedd yn gyfanswm o £5,145 |
| 9 Tach 2020 | Cafwyd dyfynbris gan Creative Play a oedd yn gyfanswm o £15,619. |
| 12 Tach 2020 | Trafodwyd y dyluniad yng Nghyfarfod y Cyngor. |

| Dyddiad | Gweithgareddau Allweddol |
|---|---|
| 14 Tach 2020 | Gofynnwyd i bob un o'r 3 chwmni offer chwarae a ymatebodd adolygu eu dyfynbris gan hepgor gwaith tir |
| 10 -21 Rhag 2020 | Cais am grant wedi'i gyflwyno a llwyddiant i sicrhau cyllid wedi'i gadarnhau |
| 7 – 14 Ion 2021 | Cymhariaeth rhwng y dyfynbrisiau wedi'i darparu ar gyfer yr Aelodau a'i thrafod wedyn yn y Cyngor lle cytunwyd y byddai'r contract ar gyfer gwaith tir yn cael ei ddyfarnu i Celtic Stone a'r contract ar gyfer yr offer chwarae i Playquest gan mai'r cyfuniad hwn oedd yn rhoi'r 'gwerth gorau' |

Ffynhonnell yr Arddangosyn: Dadansoddiad Archwilio Cymru

## Ceir diffygion sylweddol yn y ffordd y gwnaeth y Cyngor gaffael y gwaith i faes chwarae Maeshafn ac fe fethodd y Cyngor â dilyn ei reolau sefydlog a'i reoliadau ariannol ei hun

49 Wedi i'r Cyngor gwblhau'r Cynllun Datblygu ar gyfer maes chwarae Maeshafn roedd gan y Cyngor ddigon o wybodaeth i dangos y byddai gwerth tebygol y contract yn fwy na £10,000. Mae hyn yn golygu, dan ei reoliadau ariannol ei hun, ei bod hi'n ofynnol i'r Cyngor ddilyn proses dendro ffurfiol. Byddai'r broses hon yn cynnwys datblygu manyleb fanwl, hysbysebu'r contract yn y wasg, cyhoeddi gwahoddiad i dendro a chynnal proses cynigion wedi'u selio, a chyflwyno adroddiad i'r Cyngor wedi hynny.

### Methodd y Cyngor â hysbysebu'r contract i wahodd tendrau ac yn lle hynny fe gysylltodd â chwmnïau unigol i ofyn iddynt ddarparu dyfynbrisiau

50 Er mwyn ceisio cyflenwyr i wneud y gwaith fe wnaeth y Cyngor adnabod a chysylltu â 4 o gyflenwyr ar 16 Hydref 2020 gyda chais i ymuno â chynrychiolwyr y Cyngor yn y maes chwarae i roi eu meddyliau cychwynnol am offer y maes chwarae a darparu dyfynbris i wneud y gwaith.

51 Ni wnaeth y Cyngor hysbysebu'r broses dendro mewn papur newydd fel sy'n ofynnol yn ôl ei reoliadau ariannol ei hun. Eglurodd y Clerc yr ystyriwyd fod y gost o oddeutu £500 yn ddrud ac yn ddefnydd diangen o arian y Cyngor.

52 Nid oedd yr ohebiaeth i gyflenwyr yn dynodi mai proses gaffael gan ddefnyddio tendrau wedi'u selio fyddai hon ac nid oedd yn darparu unrhyw drefniadau ymateb a oedd yn arwydd o drefniant o'r fath h.y. cyfeiriad dychwelyd, dyddiad ac amser, y

dylid cyflwyno tendrau wedi'u selio ac ati. Mae'n amlwg mai'r cwbl a wnaeth y Cyngor oedd ceisio dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith ac na ddefnyddiodd broses â thendrau wedi'u selio ar gyfer y gwaith hwn yn unol â Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog y Cyngor.

53 Er bod y Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol yn darparu ar gyfer hepgor y rhain gan y Cyngor ar gyfer prosiectau unigol, nid oes unrhyw dystiolaeth bod hyn wedi cael ei ystyried na'i benderfynu ar unrhyw adeg gan y Cyngor.

54 Mae'r Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol bod tendrau'n cael eu cyflwyno'n ysgrifenedig mewn amlen wedi'i selio a'i marcio ac wedi'i chyfeirio at y Swyddog Priodol a bod y Swyddog Priodol yn agor y tendrau yng ngŵydd o leiaf Un Cynghorydd ar ôl i'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r tendrau fynd heibio.

55 Eglurodd y Clerc y byddai'r cyfyngiadau COVID a oedd mewn grym ar y pryd wedi atal hyn ac mai ei dealltwriaeth hi oedd y byddai'r eithriad yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 (Rheoliadau 2020) wedi golygu nad oedd hyn yn angenrheidiol.

56 Nid wyf fi'n ystyried bod Rheoliadau 2020 yn darparu unrhyw eithriad o'r fath.

57 Mewn ymateb i'm canfyddiadau dros dro, mae'r Cyngor yn datgan fel a ganlyn:

'Mae Rheol Sefydlog 18 a. v. yn datgan bod 'contractau â gwerth amcangyfrifedig islaw [£25,000] neu oherwydd 'amgylchiadau arbennig' wedi'u heithrio rhag y gofyniad i gynnal proses dendro neu ymarfer caffael.

Mae'r Cyngor yn dilyn arfer cyfrifyddu safonol wrth adolygu dyfynbrisiau trwy gymharu prisiau net gan y gellir adennill TAW gan Cyllid a Thollau EF. Yn yr achos hwn £22,442 oedd cyfanswm gwerth y contract... ac roedd felly islaw'r trothwy o £25,000 ar gyfer cynnal proses dendro ffurfiol. Y weithdrefn a ragnodir ar gyfer contractau â gwerth is na hyn yw cael tri dyfynbris, sef yr hyn a wnaeth y Cyngor.'

58 Trwy ymateb fel hyn, mae'r Cyngor wedi diystyru'r ffaith bod ei Gynllun Datblygu ar gyfer Cae Chwarae a Pherllan Maeshafn ym mis Medi 2020 wedi nodi y byddai'r gost debygol yn uwch na £26,000. O ystyried y gost ddisgwyliedig a nodwyd yn y ddogfen hon, felly, nid oedd gan y Cyngor unrhyw reswm dros eithrio'r broses gaffael hon rhag ei reolau sefydledig ar sail gwerth amcangyfrifedig.

59 Roedd ymateb y Cyngor hefyd yn nodi fel a ganlyn:

'Pe bai'r gwerth wedi bod uwchlaw £25,000 byddai 'amgylchiadau arbennig' wedi bod yn berthnasol oherwydd pandemig Covid a byddai'r Cyngor yn dal i fod wedi dilyn y drefn o gael tri dyfynbris mwy na thebyg. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod cynghorau'n wynebu amgylchiadau digynsail pan gyflwynodd *Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020* a phan anfonodd Julie James AC femo esboniadol a oedd yn dweud: '*Os yw darpariaeth mewn rheolau sefydlog neu reolau lleol eraill yn anghydnaws ag unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau, ni fydd y ddarpariaeth honno mewn grym tra bo'r darpariaethau yn y Rheoliadau mewn grym'.'*

60 Mae'n amlwg o ymateb y Cyngor nad oedd yn ystyried bod unrhyw amgylchiadau arbennig yn berthnasol i'r broses gaffael hon. Nid yw cofnodion y Cyngor yn

cyfeirio at unrhyw amgylchiadau o’r fath ac mae’n amhriodol honni drannoeth bod amgylchiadau o'r fath yn bodoli.

## Yn dilyn cael dyfynbrisiau ar gyfer y cynllun gwreiddiol fe gysylltodd y Cyngor â phumed contractwr posibl i ofyn iddo ddarparu dyfynbris ar gyfer rhan o’r cynllun yn unig

61 Cafwyd dau ddyfynbris gan Play and Leisure Ltd (Play and Leisure) a Play Quest Adventure Play Ltd (Play Quest) ar 21 a 23 Hydref 2020. Darparodd Creative Play Ltd (Creative Play) ddyfynbris ar 9 Tachwedd 2020. Ni wnaeth y cyflenwr arall a wahoddwyd gysylltu â’r Cyngor i drefnu cyfarfod i roi dyfynbris ar gyfer y gwaith. Roedd y dyfynbrisiau hyn yn seiliedig ar drafodaeth gyda chynrychiolwyr pob cwmni.

62 Roedd y dyfynbrisiau gwreiddiol a ddarparwyd ar gyfer y Cyngor fel a ganlyn:

| | Dyfynbris gwreiddiol (hen gynnwys TAW) £ |
|---|---|
| Play and Leisure | £37,332 |
| Play Quest | £40,392 |
| Creative Play | £32,042 |

63 Yn ei ymateb i’m canfyddiadau dros dro, fe eglurodd y Cyngor pam y cafwyd dyfynbrisiau diwygiedig:

‘Roedd gan y Cadeirydd a’r Clerc ‘bwerau dirprwyedig’ a phan astudion nhw’r tri dyfynbris a gafwyd, cawsant fod pob un ohonynt ddwywaith yn fwy na chyllideb y Cyngor, sef £25,000. Fe wnaethant gymharu costau eitemau unigol a sylweddoli mai dim ond dau ddyfynbris oedd ganddynt ar gyfer y gwaith tir am bod Creative Play wedi dewis peidio â darparu dyfynbris. Dyma pryd y gofynnwyd i Celtic Stone ddarparu dyfynbris fel bod trydydd pris ar gyfer y gwaith tir.

Fe gysylltwyd â’r contractwyr offer chwarae ac fe gafwyd trafodaeth faith am eu priod ddyfynbrisiau. Yn ystod y cyfarfodydd hyn fe eglurwyd wrth bob un ohonynt efallai y byddai’n rhaid i’r Cyngor wahanu’r gwaith tir oddi wrth y gweddill oherwydd cyfyngiadau cyllidebol... Fe’u gwahoddwyd i ddiwygio’u dyfynbrisiau yn seiliedig ar flaenoriaethau trigolion ar gyfer offer chwarae a’r hyn a fyddai’n lleihau’r gost fel ei bod o fewn y gyllideb yn nhyb y Cyngor.’

64 Ar 27 Hydref 2020, cyfarfu’r Cadeirydd â chynrychiolwyr Celtic Stone ar y safle i drafod gwaith a oedd yn gysylltiedig â’r prosiect. Wedyn fe ysgrifennodd y Clerc at Celtic Stone yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw yn gofyn i’r cwmni ddarparu dyfynbris ar gyfer gwaith tir penodol.

65 Darparodd Celtic Stone ddyfynbris ar 8 Tachwedd 2020 a oedd yn gyfanswm o £5,145 ar gyfer 3 elfen o waith tir gan gynnwys llawr newydd ar gyfer canolfan ddysgu, llwybr mynediad ar gyfer pobl anabl a phlinthau ar gyfer ardal eistedd.

66 Mae ymateb y Cyngor i’m canfyddiadau dros dro a nodir ym mharagraff 63 yn anghyson â’r digwyddiadau gwirioneddol. Mae’r Cyngor yn dweud bod y Cadeirydd a’r Clerc wedi adolygu tri dyfynbris gwreiddiol cyn cysylltu â Celtic Stone. Fodd bynnag, ni ddarparodd Creative Play ei ddyfynbris tan 9 Tachwedd.

67 Mae'n beth hynod o anarferol i gyngor ofyn am ddyfynbrisiau ychwanegol am ran yn unig o'r gwaith sy'n ofynnol ar gyfer prosiect penodol unwaith y mae wedi cyhoeddi manyleb. Fe eglurodd y Clerc, pan sylweddolodd y Cyngor fod Play Quest yn bwriadu isgontractio'r gwaith tir, fod y Cyngh. Morgans wedi ffonio Celtic Stone ac wedi gofyn a hoffai Celtic Stone ddarparu dyfynbris ar gyfer y gwaith.

68 Mae'r newid sylweddol hwn i gwmpas y broses gaffael a oedd yn cael ei chynnal yn golygu y dylai proses ar wahân i gyflwyno dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith tir fod wedi cael ei chynnal yn unol â Rheoliadau Ariannol ar gyfer gwaith â gwerth is na £10,000.

69 Ar yr adeg hon, roedd gan y Cyngor ddigon o wybodaeth i benderfynu y byddai cost debygol y gwaith tir yn fwy nag £800, sef y trothwy i'r Cyngor gael tri dyfynbris ar gyfer y gwaith. Fodd bynnag, ni cheisiodd y Cyngor unrhyw ddyfynbrisiau pellach.

70 Nid yw'r Cyngor wedi darparu unrhyw dystiolaeth i ddangos ei fod wedi rhoi awdurdod i gael dyfynbris pellach ar gyfer y gwaith tir. Gan hynny, yn fy marn i, fe weithredodd y Cadeirydd heb awdurdod cyfreithlon.

## Fe wnaeth y Cyngor gamarwain y tri chwmni a oedd wedi darparu dyfynbrisiau'n wreiddiol pan ofynnodd am ddyfynbrisiau diwygiedig nad oeddent yn cynnwys gwaith tir

71 Ar 14 Tachwedd 2020, fe gysylltodd y Clerc â Play and Leisure, Play Quest a Creative Play gan ofyn iddynt adolygu eu dyfynbrisiau yn seiliedig ar yr eitemau a gadarnhawyd heb gynnwys y gwaith tir. Eglurodd y Clerc fod y fanyleb wedi newid am bod trigolyn lleol sy'n weithiwr tir cymwysedig wedi gwirfoddoli i greu llwybr o'r gât at y siglenni i wneud mynediad yn rhwyddach ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn, pramiau a sgwteri symudedd.

72 Ceisiwyd dyfynbrisiau ar gyfer rhestr benodedig o offer heb unrhyw gyfarwyddiadau ffurfiol heblaw am gais i ddarparu ymatebion. Mae'r Clerc wedi dweud mai ei dealltwriaeth hi oedd bod y cais i ddarparu pris diwygiedig yn ateb y gofyniad i roi gwahoddiad ffurfiol i dendro.

73 Mewn ymateb i'm canfyddiadau dros dro, dywedodd y Cyngor 'na wnaeth 'gamarwain' unrhyw un yn ei gyfathrebiadau...' Mae'n dweud hefyd y 'Gofynnwyd i'r perchennog ddarparu dyfynbris ar gyfer y gwaith tir ond ni fu erioed unrhyw awgrym mai gwaith 'gwirfoddol' oedd hwn a'i fod felly'n rhad ac am ddim. Mae'r Cyngor yn credu bod camddehongliad wedi bod yn rhywle yn yr ohebiaeth a anfonwyd at yr archwilydd'.

74 Nid wyf fi'n ystyried bod y datganiad hwn yn gredadwy. Darparodd y Cyngor ei hun gopi o'r llythyr at y tri chwmni a ddarparodd y dyfynbrisiau gwreiddiol. Mae'r llythyr hwn yn datgan yn glir bod y gwaith tir yn cael ei wneud yn wirfoddol.

75 Yn fy marn i, nid oedd rheswm dilys dros honni bod trigolyn lleol wedi gwirfoddoli i wneud y gwaith tir. Perchennog Celtic Stone oedd y trigolyn lleol y cyfeiriwyd ato. Roedd y gwaith yn mynd i gael ei gwblhau ar sail fasnachol ac nid yn wirfoddol ac, a dweud y gwir, roedd y Cyngor eisoes wedi cael dyfynbris gan Celtic Stone.

# Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer prosiect Maeshafn yn golygu nad yw'n gallu dangos stiwardiaeth briodol ar arian cyhoeddus ac yn fy marn i, fe weithredodd yn anghyfreithlon wrth ddyfarnu contract ar wahân ar gyfer gwaith tir

## Penderfynodd y Cyngor i ba gwmnïau y byddai'n dyfarnu contractau ar sail cymhariaeth rhwng dyfynbrisiau a ddarparwyd yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr 2021

76 Yn dilyn cael y dyfynbrisiau terfynol, fe luniodd y Clerc a'r Cadeirydd dabl yn cymharu'r dyfynbrisiau i gael ei ystyried yng nghyfarfod y Cyngor ar 14 Ionawr 2021.

77 Mae cofnodion y cyfarfod yn nodi fel a ganlyn:

'Aeth y Clerc drwy'r dyfynbrisiau a gafwyd oddi wrth y 4 contractwr y gofynnwyd iddynt dendro am y gwaith ac ar ôl trafodaeth briodol fe gynigiodd y Cadeirydd y dylid penodi Play Quest i ddarparu'r offer chwarae a Celtic Stone i wneud y gwaith tir.'

78 Mae'r cofnodion yn nodi mai £19,979.70 oedd cost yr offer a fyddai'n cael eu darparu gan Play Quest. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion yn nodi cost y gwaith tir.

79 Darparwyd cymhariaeth rhwng y dyfynbrisiau ar gyfer Cynghorwyr ar 7 Ionawr 2021 yn barod ar gyfer cyfarfod y Cyngor ar 14 Ionawr 2021 fel a ddangosir yn Arddangosyn 3 isod:

**Arddangosyn 3: Cymhariaeth rhwng y Dyfynbrisiau ar gyfer Datblygu Cae Chwarae Maeshafn**

**Playing Field Development - Comparison of Quotes**

| Scope of Work | Play & Leisure | PlayQuest | Creative Play | Celtic Stone | Brian Davies | Total Cost |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Actual | Actual | Actual | Actual | Not responded | Best Option |
| Remove existing equipment | 500 | 950 | 948 | | | |
| 1 x basket swing | 2049.00 | 3270 | 2730 | | | |
| 2 x flat seat swings | 1130 | 2370 | 1415 | | | |
| 1 x activity centre | 6766 | 4900 | 6487 | | | |
| 1 x springer rocker | 468 | 865 | 721 | | | |
| 1 x ball catcher | 1192 | 550 | 1598 | | | |
| Grass mats | 3936 | inc | 1200 | | | |
| Leveling of grass mats | inc | 500 | inc | | | |
| 4m shelter | 8576.25 | 5275 | 5987 | | | |
| Timber protection | 772.84 | inc | 1100 | | | |
| Installation | 3500 | inc | 498 | | | |
| Discount | -2095.41 | -1530 | 0 | | | |
| **Total** | **26794.68** | **17150** | **22684** | **0** | **0** | 17150 |
| | | | | | | |
| **Groundworks** | | | | | | |
| Paths | 2290 | 6400 | n/a | 3050 | | |
| Plinths | n/a | n/a | n/a | 600 | | |
| Floor for shelter | 1000 | 1120 | 1000 | 1495 | | |
| **Total** | **3290** | **7520** | **1000** | **5145** | **0** | 5145 |
| | | | | | | |
| **Additional Items** | | | | | | |
| Picnic tables | | | | | | 400 |
| Bulbs | | | | | | 200 |
| Refurbish shed | | | | | | 200 |
| **Total Project** | | | | | | **23095** |
| | | | | Llanferres | 20% | 4619 |
| | | | | Clocaenog | 80% | 18476 |
| | | | | | | 23095 |

Ffynhonnell yr Arddangosyn: Cyngor Cymuned Llanferres

80 Cafwyd y ffigyrau sydd wedi'u cynnwys yn y tabl ar gyfer gwaith tir fel a ganlyn:

- Ffigwr Play and Leisure o £2,290 o'r dyfynbris gwreiddiol a ddarparwyd ar 21 Hydref 2020. Cyfrifwyd cost o £1,000 ar gyfer llawr y Cysgodfan trwy ddefnyddio cymhariaeth ar-lein rhwng Cysgodfan â llawr a heb lawr a chyfrifo cost y llawr fel y gwahaniaeth.
- Cafwyd ffigwr PlayQuest o £6,400 o ddyfynbris pellach ar 17 Tachwedd 2020.
- Roedd dyfynbris Creative Play a ddarparwyd ar 9 Tachwedd 2020 yn nodi y byddai'r cwsmer yn gwneud gwaith penodol gan gynnwys gosod padiau tarmac a gwaredu.
- Cafwyd ffigyrau Celtic Stone a oedd yn gyfanswm o £5,145 o ddyfynbris a ddaeth i law ar 8 Tachwedd 2020.

81 Yn ei ymateb i'm canfyddiadau dros dro, dywedodd y Cyngor:

'Cyflwynwyd y gymhariaeth rhwng dyfynbrisiau i'r Cyngor gydag argymhelliad bod dyfynbris PlayQuest ar gyfer offer chwarae'n cael ei gyfuno â phris Celtic Stone ar gyfer gwaith tir fel yr unig ffordd ddichonadwy o gyflawni'r prosiect o fewn y gyllideb... mae'r gymhariaeth rhwng dyfynbrisiau a gyflwynwyd i'r cyfarfod ar 14 Ionawr 2021...yn dangos sut mai hwn oedd y datrysiad mwyaf cost-effeithiol.

Mae'r Cyngor yn credu ei fod, trwy wneud hyn, wedi arfer diwydrwydd dyladwy, ei fod yn 'dryloyw' ac na wnaeth 'gamarwain' unrhyw un.'

## Ni ellir adnabod yn glir mai'r cyflenwr a dewiswyd ar gyfer y gwaith tir oedd yn darparu'r gwerth gorau a'r datrysiad mwyaf cost-effeithiol ar gyfer y gwaith

82 Y cwbl y mae cofnodion y cyfarfod ar 14 Ionawr 2021 yn ei gadarnhau yw bod y Clerc wedi mynd drwy'r dyfynbrisiau a bod y Clerc wedyn yn gallu penodi Celtic Stone yn ffurfiol i wneud y Gwaith Tir. Nid yw'r tabl a luniwyd gan y Clerc yn dangos mai Celtic Stone oedd yr opsiwn mwyaf cost-effeithiol.

83 Eglurodd y Clerc wrth fy nhîm archwilio fod Celtic Stone wedi cael eu dewis am bod gan y deunydd wyneb a fyddai'n cael ei ddarparu ganddynt hwy ddisgwyliad oes o 20 mlynedd tra bo'r deunydd gan y darparwyr Offer Chwarae yn y dyfynbrisiau gwreiddiol yn cynnig disgwyliad oes o 5 mlynedd. Roedd Play Quest yn gallu darparu dyfynbris ar gyfer wyneb mwy gwydn fel a nodwyd yn y dyfynbris ar 17 Tachwedd 2020. Cysylltwyd â Play & Leisure Ltd i gael dyfynbris diwygiedig ond dywedodd y Clerc nad oeddent yn gallu darparu'r wyneb mwy gwydn a oedd yn ofynnol.

84 Ni ddarparwyd unrhyw fanyleb yn y cais gwreiddiol i'r cyflenwyr offer Maes Chwarae heblaw am y gofyniad i *'greu llwybr â wyneb caled o'r ffordd at y siglenni sy'n addas ar gyfer mynediad gan ddefnyddwyr cadeiriau olwyn'*.

85 Roedd y fanyleb yn y cais ysgrifenedig am bris gan Celtic Stone yn amlinellu'r canlynol:-

1. Creu llwybr o'r gât at y siglenni sy'n addas ar gyfer defnydd gan bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn, pramiau a sgwteri symudedd fel a farciwyd mewn tywod ac a ddynodir ar y lluniad sydd wedi'i atodi.
2. Creu llawr caled ar gyfer y cysgodfan addysg awyr agored yn mesur oddeutu 7m x 7m gyda mynediad gwastad yn y fynedfa i hwyluso mynediad gan ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.
3. Creu plinthau concrit i osod 2 fainc/2 fwrdd picnic yn mesur oddeutu 2m x 3m.

86 Ni chysylltwyd â Play and Leisure, Play Quest a Creative Play i ofyn iddynt ddarparu cost ar gyfer y plinthau a oedd wedi'u cynnwys ar y fanyleb Gwaith Tir a anfonwyd at Celtic Stone. Mae Atodiad 1 yn crynhoi'r fanyleb a ddarparwyd ar gyfer Play and Leisure, Play Quest a Celtic Stone.

87 Yng ngoleuni ymateb y Clerc, mae'r fanyleb yn gyffredinol iawn ac nid yw'n nodi mesuriadau'r ardal ar gyfer y llwybr na gorffeniad disgwyliedig / oes ddisgwyliedig unrhyw wyneb a fyddai'n cael ei ddefnyddio.

88 Mae manylion yr wybodaeth a ddarparwyd gyda'r dyfynbrisiau wedi'u cynnwys yn **Atodiad 2**. Cânt eu crynhoi yma:

- mae'r dyfynbris gan Play and Leisure yn un ar gyfer llwybr 33m$^2$ gyda haen uchaf wedi'i gwneud o darmac dros y gwaelod isaf am bris o £2,290;

- mae’r dyfynbris gan Celtic Stone yn un am lwybr o faint amhenodol gyda haen uchaf wedi’i gwneud o galchfaen mân (llwch calchfaen) am bris o £3,050; ac
- mae’r dyfynbris gan Playquest yn un ar gyfer llwybr 80m$^2$ gyda haen uchaf wedi’i gwneud o goncrit dros y gwaelod isaf am bris o £6,400

89 Mae’r dyfynbris gan Celtic Stone yn un ar gyfer llwybr sydd heb haen uchaf wedi’i gwneud o goncrit na tharmac.

90 Mae’r dyfynbris gan Play Quest yn cynnwys llawr ar gyfer y sied dractor ac mae ar gyfer ardal sydd ddwy a hanner gwaith yn fwy na llwybr Play and Leisure ac yn debygol o fod tua’r un faint o weithiau’n fwy na llwybr Celtic Stone gan dybio bod o Cyngor wedi trafod yr un llwybr trwy’r Parc gyda’r holl gyflenwyr.

91 Mae’n aneglur sut y gwnaeth y Cyngor gymharu costau a manteision yr amryw ddyfynbrisiau a gafwyd gan bod y manylebau a ddarparwyd ar gyfer pob cyflenwr yn wahanol.

92 Mae methiant y Cyngor i nodi’n briodol beth oedd ei ofynion mewn perthynas â’r gwaith tir yn golygu nad yw’r dyfynbrisiau’n gymaradwy mewn unrhyw ffordd ac nad oes digon o wybodaeth i’w defnyddio fel sail i benderfynu mewn modd rhesymol pa ddyfynbris sy’n darparu’r gwaith tir mwyaf cost-effeithiol ar gyfer y parc.

93 Mae’r Cyngor yn credu ei fod ‘wedi arfer diwydrwydd dyladwy yn ei ddewis o ddeunyddiau a chontractwr ar gyfer y gwaith tir’. Eglurodd ‘nad oes ganddo syrfëwr meintiau cymwysedig nac arbenigwr deunyddiau. Mae’n dibynnu ar ei ymchwil ei hun, awgrymiadau gan gyflenwyr, profiad masnachol, ei grebwyll ei hun a’r hyn y gall ei fforddio. Dangoswyd ardal ar gyfer y gwaith tir a oedd wedi cael ei marcio mewn tywod i bob contractwr a ddarparodd ddyfynbris ar gyfer y datblygiad hwn. Roedd hi’n glir nad oedd y llawr ar gyfer y sied dractor wedi’i gynnwys gan bod llawr caled ganddo’n barod... Gofynnwyd i gontractwyr gymryd eu mesuriadau eu hunain i osgoi anghydfodau (mae profiad yn dangos bod rhai contractwyr yn defnyddio gwahaniaethau rhwng mesuriadau cleientiaid a’u mesuriadau hwy eu hunain i gyfiawnhau ‘ychwanegiadau’ ar ddiwedd contract).

94 Yn fy marn i, roedd y Cyngor wedi penderfynu ymlaen llaw y byddai’n penodi Celtic Stone ni waeth beth fyddai ansawdd na chost eu cynnig. Gan hynny rwy’n ystyried bod y Cyngor wedi gweithredu’n anghyfreithlon pan benododd Celtic Stone.

# Mae dull caffael y Cyngor ar y cyfan yn wael ac mae'r methiannau a ganfuwyd yn systemig

## Ceir diffygion mewn prosesau i ddyfarnu pob un o'r pedwar contract a adnabuwyd yn 2020-21 lle'r oedd y gost yn uwch na'r trothwy a nodir yn rheoliadau ariannol y Cyngor ei hun

95 Canfu fy archwiliad bedwar contract/taliad gan y Cyngor yn 2020-21 a oedd uwchlaw'r trothwy o £800 a nodir yn y rheoliadau ariannol.

96 Ar gyfer tri o'r ymarferion caffael a archwiliwyd nid oedd tystiolaeth i ddangos bod y Cyngor wedi cofnodi'n glir bod awdurdodiad wedi'i roi i wario'r symiau dan sylw. Cynhaliwyd y pedwerydd ymarfer caffael heb gystadleuaeth a heb geisio eithriad rhag gofynion y rheoliadau ariannol.

### Datblygu Gwefan

97 Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2020 yn nodi bod contract i ddatblygu gwefan wedi cael ei ddyfarnu i Aubergine o Milton Keynes. Mae'r cofnodion yn nodi anghytundeb rhwng y cynghorwyr ond nid ydynt yn nodi gwerth y dyfynbrisiau a gafwyd gan y cyflenwyr nac yn cadarnhau gwerth y contract y bwriedid ymrwymo iddo ar gyfer datblygu gwefan. Ceir rhagor o fanylion mewn dogfen sy'n dwyn y teitl 'Diweddariad ar y Wefan ac Argymhelliad i'r Cyngor ar 11 Mehefin 2020'. Mae'r cofnodion yn cyfeirio at 'gynnig a gafodd ei gylchredeg i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod' ar 11 Mehefin. Darparodd y Cyngor gopi o'r papur yn cyflwyno'r argymhelliad ar fy nghyfer yn ei ymateb i'm canfyddiadau dros dro. Mae'r cofnodion yn nodi bod y 'Clerc a'r Cyngh. Curtis [yn mynd] i symud y wefan ymlaen i'r cam nesaf ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf'. Yn y cyfarfod nesaf ar 9 Gorffennaf 2020, dan eitem rhif 77 ar yr agenda mae'r cofnodion yn cadarnhau bod Aubergine bellach wedi creu sgerbwd y wefan.

98 Rwyf wedi fy argyhoeddi bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i Reolau Sefydlog a'i Reoliadau Ariannol yn yr achos hwn.

### Ffensys ym Mherllan Maeshafn

99 Ar 9 Gorffennaf 2020, fe gymeradwyodd y Cyngor daliad o £1,392 i gontractwr ar gyfer gwaith ar ffensys ym Mherllan Maeshafn.

100 Cadarnhaodd y Clerc mai ail gam yn dilyn gwaith blaenorol a wnaed gan yr un contractwr oedd y gwaith yma. Nid yw'r Clerc yn gallu dod o hyd i'r gwaith papur ategol, heblaw am gymhariaeth rhwng dyfynbrisiau, gan bod hyn cyn iddi hi gael ei chyflogi yn y Cyngor. Mae hi'n ymwybodol bod y Cyngor yn cael anawsterau dod o hyd i gontractwyr a oedd yn gosod y ffensys gwartheg a oedd yn ofynnol yn yr ardal. Rhoddodd dau gontractwr ddyfynbris ar gyfer cam 1af y prosiect ym mis Gorffennaf 2019. Y contractwr buddugol oedd yr un a gyflwynodd y dyfynbris isaf ac fe dalwyd £2,145.72 iddo.

101 Fe benderfynodd y Cynghorwyr yn ddiweddarach y byddent yn cadw'r contractwr ar gyfer cam 2 a gwblhawyd ym mis Gorffennaf 2020. Mae cofnodion y cyfarfod ar 14 Mai 2020 yn nodi fel a ganlyn:

*Dywedodd y Cyngh. Morgans (Cadeirydd) fod angen i'r Cyngor wahodd tendrau ar gyfer y ffensys ym Mherllan Maeshafn o ystyried bod y gost uwchlaw terfyn y Cyngor o £800. Tynnodd Mrs Dillon sylw at y ffaith bod y gwaith yn cael ei gyllido â grant gohiriedig ac felly bod rhaid i ni ddefnyddio'r Contractwr a ddarparodd y dyfynbris gwreiddiol. Cyflwynwyd cynnig gerbron i fwrw ymlaen â threfnu'r ffensys ac nid oedd angen pleidleisio.*
*Cam Gweithredu: Y Cyngh. Morgans i drefnu bod y ffensys yn cael eu codi cyn gynted â phosibl'*

102 Eglurodd y Clerc wrth fy nhîm archwilio fod y Cyngor yn credu nad oedd hi'n ofynnol cynnal proses gaffael bellach gan bod angen i'r ffensys ychwanegol gyd-fynd â'r rhai gwreiddiol a bod y gwaith yn gysylltiedig â chyllid grant. Roedd y Cyngor hefyd yn credu y byddai'r contractwr yn dal i fod yn rhatach na'r contractwr arall.

103 Yn yr achos hwn fe dorrodd y Cyngor ei reoliadau ariannol trwy:

- beidio â cheisio 3 dyfynbris ar gyfer ail gam y gwaith i osod ffensys;
- peidio â cheisio awdurdod i gymeradwyo gwariant cyn dyfarnu'r gwaith i Gwilym Lloyd am gyfanswm o £1,392; a
- pheidio â cheisio cymeradwyaeth i hepgor y rheoliadau ariannol mewn perthynas â chontractau i'w gwneud yn bosibl negodi pris heb gystadleuaeth.

104 Nid yw'r datganiad bod rhaid i'r contract ar gyfer cam 2 gael ei ddyfarnu i'r contractwr a gwblhaodd Gam 1 am 'ei fod yn mynd i gael ei gyllido â grant gohiriedig' yn gredadwy.

105 Yn ei ymateb i'm canfyddiadau dros dro, dywedodd y Cyngor ei fod 'wedi cymryd yr hyn a ddywedwyd gan y Clerc blaenorol ar ei olwg oherwydd parch at ei 25 mlynedd o brofiad ond ei fod yn derbyn yn awr bod gwneud hynny'n golygu ei fod wedi torri ei Reoliadau Ariannol'.

### Parc Maes Ysgawen

106 Pan archwiliwyd y modd y dyfarnwyd y gwaith ym Mharc Maes Ysgawen i White Oak Property ar 1 Hydref 2020 fe gadarnhawyd ar yr achlysur hwn bod y cofnodion yn nodi'n glir bod gwerth gwaith y contract, sef £990, wedi cael ei dderbyn.

### Hysbysfwrdd Loggerheads

107 Pan archwiliwyd y modd y dyfarnwyd gwaith i Signs Workshops i newid hysbysfwrdd yn Loggerheads am gyfanswm o £1,236 canfuwyd nad oes awdurdodiad wedi'i nodi yn unrhyw gofnodion gan y Cyngor ar gyfer y gwariant.

108 Fe wnaeth y cyfarfod ar 8 Gorffennaf 2021 gadarnhau cost yr hysbysfwrdd a bod '*y Cyngh. Cordiner wedi cynnig bod pwerau dirprwyedig yn cael eu rhoi i'r Cadeirydd i fwrw ymlaen â hyn a cheisio sicrhau cyfraniad rhesymol tuag at y gost gan y Gwasanaethau Cefn Gwlad*'

109 Mae cofnodion y cyfarfod dilynol ar 9 Medi 2021 yn nodi bod y '*Gwasanaethau Cefn Gwlad wedi cytuno i dalu £200 tuag at gost yr hysbysfwrdd yn Loggerheads a'i osod yn rhad ac am ddim. Dylai gyrraedd erbyn tua'r 27ain o Fedi*

*Cam Gweithredu: Y Cyngh. Morgans i gydlynu'r broses o'i ddanfon a'i osod'*.

110 Yn unol â Rheoliadau Ariannol 4.1 a 4.2 nid oes unrhyw dystiolaeth bod y gwariant o £1,236 gyda Signs Workshops i newid yr Hysbysfwrdd wedi cael ei awdurdodi.

111 Mae'r Cyngor yn derbyn fy nghanfyddiadau archwilio'n rhannol. Mae'n nodi bod tri dyfynbris wedi cael eu darparu ar gyfer yr hysbysfwrdd ac wedi darparu copïau o'r dyfynbrisiau hyn. Mae'r Cyngor yn egluro bod y dyfynbrisiau wedi cael eu trafod yn ystod y cyfarfod ar 10 Rhagfyr 2020 pan roddodd y Cyngor ystyriaeth i'w braesept ar gyfer 2021-22. Mae'n dadlau bod cynnwys pris Sign Workshops yn ei gyfrifiadau ar gyfer y praesept yn dangos bod y Cyngor wedi dewis y pris isaf a ddyfynnwyd ond mae'n derbyn 'na chafodd y gwariant hwn ei awdurdodi'n ffurfiol na'i gofnodi yn y cofnodion.'

## Nid yw'r Cyngor yn cofnodi yn ei gofnodion beth yw ei resymeg dros dderbyn dyfynbrisiau heblaw'r isaf a gafwyd

112 Yn ystod yr adolygiad o'r broses gaffael ar gyfer yr offer maes chwarae a'r gwaith tir nodwyd fod y rhesymeg dros ddyfarnu'r gwaith tir i Celtic Stone, er nad hwnnw oedd wedi darparu'r dyfynbris rhataf, heb ei nodi yng Nghofnodion y Cyngor.

113 Canfu fy archwiliad o'r pedwar taliad pellach uwchlaw £800 yn 2020-21 fod y penderfyniad i ddyfarnu contract datblygu gwefan i Aubergine ym mis Mehefin 2020 er nad Aubergine oedd y cynigydd isaf, heb gael ei ategu gan esboniad pam y penodwyd Aubergine yn hytrach na'r pedwar cynigydd arall.

114 Gwahoddwyd 9 cyflenwr i dendro ac fe ddarparodd 5 ohonynt ddyfynbrisiau. Mae adolygiad o'r tabl cymharu dyfynbrisiau a geir yn Atodiad 4 yn dangos nad Aubergine oedd y cyflenwr rhataf.

115 Mae'r Clerc wedi cadarnhau bod 5 dyfynbris wedi dod i law a bod 3 wedi'u nodi'n rhai oedd yn werth eu hystyried – Web Studio, Aubergine a JD Keen. Nid y cyflenwr a ddewiswyd, Aubergine, gynigiodd y pris isaf. JD Keen gynigiodd y pris isaf ond dim ond am 2 flynedd y gallai gynnal y wefan. Cawsant eu diystyru am nad oedd ar y Cyngor eisiau mynd trwy'r broses eto mor fuan wedi hynny gyda'r costau anhysbys cysylltiedig. O'r 2 arall, dewiswyd Aubergine am bod eu pris yn is na Web Studio a'u bod wedi bod 'o gymorth mawr yn ystod y broses'.

116 Mae Rheoliad Ariannol 10.3 yn gosod dyletswydd ar aelodau a swyddogion sy'n gyfrifol am gael gwerth am arian bob amser. Dylai swyddog sy'n dyroddi archeb swyddogol sicrhau hyd y bo'n rhesymol ac yn ymarferol y ceir y telerau gorau sydd ar gael mewn perthynas â phob trafodiad, fel arfer trwy gael tri neu fwy o ddyfynbrisiau neu amcangyfrifon gan gyflenwyr priodol. Er bod y gofyniad i gael mwy na thri dyfynbris wedi cael ei ateb yn yr ymarfer prynu hwn nid oes cadarnhad o'r rhesymau pam fod y Cyngor wedi dewis y cyflenwr hwn a sut y mae'n dangos gwerth am arian a bod y telerau gorau sydd ar gael wedi cael eu sicrhau.

# Atodiad 1

## Cymhariaeth rhwng manylebau gwaith tir ar gyfer Cae Chwarae Maeshafn

| Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwaith Tir | Dyfynbris |
|---|---|---|
| Dyfynbris Play and Leisure dyddiedig 21 Hydref 2020 | Cloddio llwybr newydd gydag ategion at y llawr RB i'r dyfnderoedd gofynnol a gosod ymylon PCC mewn concrit a'u hansio o amgylch y perimedr. Gosod a chywasgu gwaelod isaf MOT math 1 i ddyfnder o 10mm. Rhoi cwrs traul â dyfnder o 50mm o raean hunan-lynol yn wyneb ar y llwybr (Oddeutu 33m$^2$)<br>Cyflenwi a Gosod wyneb tarmac 33m$^2$ i greu llwybr newydd. Cwrs traul o 20mm â dyfnder o 40mm / cwrs wyneb o 6mm â dyfnder o 20mm | £1,155<br>£1,135<br>**£2,290** |
| Dyfynbris Celtic Stone dyddiedig 8 Tachwedd 2020 | Dyfynbris i gloddio llawr ar gyfer canolfan ddysgu newydd fel a drafodwyd gyda Mr Morgans, a hwnnw'n cynnwys calchfaen mathredig gyda haen o galchfaen mân ar ei ben ar gyfer mynediad rhwyddach.<br>Dyfynbris i gloddio Llwybr Mynediad newydd ar gyfer Defnyddwyr Anabl fel a drafodwyd gyda Mr Morgans, a hwnnw'n cynnwys calchfaen mathredig gyda haen o galchfaen mân ar ei ben ar gyfer mynediad rhwyddach.<br>Dyfynbris am 2 blinth ar gyfer yr ardal eistedd fel a drafodwyd gyda Mr Morgans | £1,495<br>£3,050<br>£600<br>**£5,145** |
| Dyfynbris Playquest a ddiwygiwyd ar 17 Tachwedd | Oddeutu 80 metr sgwâr o lwybr concrit yn arwain o'r fynedfa wrth y gât at y setiau o siglenni. Mae'n cynnwys cloddio gwair i ddyfnder o oddeutu 150mm, gosod ymyl pren drwyddi draw, gosod a chywasgu carreg MOT i ddyfnder o 75mm, ac yna gosod a lefelu/llyfnhau concrit â dyfnder o 75mm ar gyfer y llwybr.<br>Mae'r dyfynbris yn cynnwys darparu Sedd Ben Coeden am £1,000 – Cyfanswm dyfynbris o £9,000 wedi'i ostwng o £1,600.<br>**Wrth gyfrifo'r pris ar gyfer y gwaith tir mae'r Cyngor yn anghywir wedi tynnu cost y sedd ben coeden ac wedi cadw swm llawn y gostyngiad a gynigiwyd. Dylai'r pris diwygiedig fod wedi cael ei gadarnhau gyda'r Cyflenwr i sicrhau bod y gostyngiad yn dal i fod ar gael. Y ffigwr diwygiedig pe bai'r gostyngiad wedi cael ei gadw fyddai £6,578.** | £8,000<br>Wedi'i ostwng i<br>**£6,400** |

Ffynhonnell yr Atodiad: Dadansoddiad Archwilio Cymru

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.